# Y Bwrdd Taliadau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

12 Mehefin 2015

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 27 Mai. Ynddo, gwnaethoch ofyn:

1. *Beth mae pob unigolyn ar Fwrdd Taliadau'r Cynulliad yn ei ennill y flwyddyn mewn perthynas â busnes y bwrdd dan sylw?*
2. *Faint o oriau'r flwyddyn y mae pob unigolyn yn eu gweithio ar fusnes y Bwrdd Taliadau?*
3. *Beth yw'r costau cysylltiedig ar gyfer rhedeg y Bwrdd, gan gynnwys: swyddfa, treuliau, postio ac ati?*
4. *Beth yw cyfanswm y gost flynyddol o gyflogi Bwrdd Taliadau'r Cynulliad?*
5. *I bwy mae'r Bwrdd yn atebol iddo?*
6. *Pwy sy'n gyfrifol am ei gylch gorchwyl?*
7. *A all Aelodau'r Cynulliad wrthod "dyfarniad cyflog" eleni?*
8. *Os oes rheswm pam na allant wrthod y dyfarniad cyflog, beth yw'r rheswm/rhesymau?*

Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Bwrdd") yn gorff annibynnol ar wahân i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. At ddibenion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf"), cedwir y wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ran y Bwrdd. A bod yn fanwl gywir, nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn cadw'r wybodaeth honno, ond mae'r Bwrdd wedi darparu'r ymateb a ganlyn, felly dyma ei rannu â chi ar ran y Bwrdd. Mae pob cwestiwn wedi'i ateb ar wahân isod.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru Buddug.Saer@Assembly.Wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

1. *Beth mae pob unigolyn ar Fwrdd Taliadau'r Cynulliad yn ei ennill y flwyddyn mewn perthynas â busnes y bwrdd dan sylw?*

Mae'r Bwrdd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi manylion am daliadau unigol pob Aelod o'r Bwrdd. Mae'r adroddiadau blaenorol ar gael isod:

2010-11 2011-12 2012-13 2013-14

Nid yw Adroddiad Blynyddol 2014-15 wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad eto. Unwaith y caiff ei gymeradwyo, caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan (bwriedir gwneud hyn ym mis Gorffennaf) - www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=11701

Er gwybodaeth, mae Adran 11 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn dweud:
'*Rhaid i'r Bwrdd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, osod gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau, gan gynnwys sut mae wedi defnyddio adnoddau, yn ystod y flwyddyn ariannol honno.*'

Oherwydd y bydd y wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani yn cael ei chyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf, nid ydym yn bwriadu darparu'r wybodaeth yn awr gan y bydd modd i chi ei gweld pan gaiff ei chyhoeddi. Mae'r rhesymau dros beidio â darparu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd wedi'u hegluro yn Adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Am ragor o wybodaeth, gweler yr Atodiad.

2. *Faint o oriau'r flwyddyn y mae pob unigolyn yn eu gweithio ar fusnes y Bwrdd Taliadau?*

Gweler yr ateb i gwestiwn 1 uchod.

3. *Beth yw'r costau cysylltiedig ar gyfer rhedeg y Bwrdd, gan gynnwys: swyddfa, treuliau, postio ac ati?*

Caiff costau'r Bwrdd, gan gynnwys y taliadau a'r treuliau a hawliwyd gan yr Aelodau, eu cyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol. Mae adroddiad y Bwrdd ar yr Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad hefyd yn cwmpasu'r costau ychwanegol yn sgil y gwaith, er enghraifft drwy gomisiynu gwaith ymchwil ychwanegol.

Darperir ysgrifenyddiaeth y Bwrdd gan staff Comisiwn y Cynulliad. Nid yw'n bosibl dadelfennu'r costau hyn, gan fod staff sy'n gweithio i'r Bwrdd hefyd yn cyflawni dyletswyddau eraill o fewn y Cynulliad. Nid yw staff yn cofnodi'r amser a dreulir ganddynt yn cefnogi'r Bwrdd, ac felly, nid yw'r wybodaeth hon ar gael ac ni ellir ei darparu.

4. *Beth yw cyfanswm y gost flynyddol o gyflogi Bwrdd Taliadau'r Cynulliad?*

Gweler yr ateb i gwestiwn 1.

5. *I bwy mae'r Bwrdd yn atebol iddo?*

Mae'r Bwrdd yn annibynnol. Caiff Aelodau'r Bwrdd eu penodi gan y Comisiwn, ac mae'r rhaglen recriwtio gyfredol wedi'i harwain gan Glerc a Phrif Weithredwr Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

6. *Pwy sy'n gyfrifol am ei gylch gorchwyl?*

Fel y nodir uchod, mae'r Bwrdd yn annibynnol a chaiff cylch gorchwyl y Bwrdd ei nodi yn y Mesur.

7. *A all Aelodau'r Cynulliad wrthod "dyfarniad cyflog" eleni?*

Y Bwrdd sy'n penderfynu ar daliadau 2015-16, a chânt bellach eu deddfu.

Fodd bynnag, gall unrhyw gyflogai ddewis aberthu cyflog. Yn wir, mae rhai o Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes yn dewis peidio â chymryd eu cyflog llawn ar hyn o bryd.

8. *Os oes rheswm pam na allant wrthod y dyfarniad cyflog, beth yw'r rheswm/rhesymau?*

Sefydlwyd y Bwrdd fel na fyddai Aelodau'r Cynulliad yn gyfrifol am y penderfyniadau ynghylch taliadau.
Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae rhai Aelodau'r Cynulliad wedi dewis yn y gorffennol, ac yn dewis ar hyn o bryd, peidio â chymryd eu cyflog llawn.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein

gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio’r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

Mae adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn darparu bod:
(1) Gwybodaeth yn wybodaeth wedi'i heithrio:

> (a) os yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan yr awdurdod cyhoeddus gyda'r bwriad o'i chyhoeddi, gan yr awdurdod neu gan berson arall, rywbryd yn y dyfodol (p'un a yw'r dyddiad wedi'i bennu ai peidio);
> (b) os oedd y wybodaeth yn cael ei chadw eisoes gyda'r bwriad o'i chyhoeddi pan wnaed y cais am ei gweld, a
> (c) os yw'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i beidio â rhyddhau'r wybodaeth tan y dyddiad a nodir ym mharagraff (a).

Mae adran 22 yn eithriad amodol a chan hynny mae angen ystyried prawf o fudd cyhoeddus.

Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Bwrdd Taliadau'n cyhoeddi gwybodaeth o'r fath fel bo angen, i alluogi'r cyhoedd i fod yn ymwybodol o'i weithgareddau. Bydd yn gwneud hynny drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol, yn ogystal ag agendâu a chofnodion cyfarfodydd.

Arfer y Bwrdd yw cyhoeddi'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani fel rhan o'i adroddiad blynyddol, a disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Gorffennaf.

Ni allwn weld unrhyw amgylchiadau sy'n awgrymu y byddai datgelu'r wybodaeth yn gynt nag arfer o unrhyw fudd cyhoeddus yn yr achos penodol hwn, heblaw ei bod yn unol â'r trefniadau hyn. Gan hynny, rydym o'r farn nad yw'r budd cyhoeddus a fyddai ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth yn gynt nag arfer yn drech na'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth gadw at y trefniadau uchod.